

Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Adroddiad Blynyddol

2019-2020

sirgar.llyw.cymru

Cyngor **Sir Gâr**
Carmarthenshire
County Council



Cynnwys

Rhagair	3
Adran 1 – Rhagarweiniad	4
Adran 2 - Nodi, casglu a defnyddio gwybodaeth berthnasol	8
Adran 3 – Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb	9
Adran 4 – Hyfforddiant	9
Adran 5 – Trefniadau caffael	9
Adran 6 - Adolygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol	10
Astudiaethau Achos	11
Manylion Cyswllt	19
Atodiad 1: Cynllun Gweithredu 2021-22	20

Rhagair i Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2019-20

Mae'n bleser gennym gyflwyno Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer 2019-20, sy'n manylu ar y modd y rhoddwyd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'n Hamcanion Cydraddoldeb Strategol ar waith.

Mae Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol yn ddogfennau pwysig sy'n pennu sut y bydd cyrff cyhoeddus yn ystyried anghenion grwpiau â 'nodweddion gwarchoddedig', fel yr amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Y bwriad yw sicrhau bod yr holl unigolion yn cael eu trin yn gyfiawn ac yn deg mewn perthynas â darparu gwasanaethau a llunio strategaeth/polisi.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi adolygu ein **Cynllun Cydraddoldeb Strategol** ac wedi gweithio mewn partneriaeth â'r Awdurdodau Lleol yn Nyfed-Powys, y ddau Fwrdd Iechyd, Heddlu Dyfed-Powys, Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordirol Sir Benfro a Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys, i gynnal ymarfer ymgysylltu ac ymgynghori manwl.

Defnyddiwyd ymagwedd dulliau cymysg i gasglu barn a phrofiadau rhanddeiliaid ledled Dyfed Powys. Cytunwyd i lunio un prif arolwg (a chwaer fersiynau) a chynnal digwyddiadau rhanddeiliaid lleol lle bo'n bosibl. Roedd yr ymagwedd hon wedi cynyddu cadernid y data a gasglwyd ac wedi hwyluso cymharedd y canlyniadau.

Yn dilyn trafodaeth â phartneriaid, roedd yr arolwg yn rhoi sylw i feysydd strategol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac yn cysylltu'n agos â'r adroddiad tystiolaeth '**Pa mor deg yw Cymru**'. Mae'r adborth wedi llywio ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'n Hamcanion Cydraddoldeb nesaf ac wedi darparu tystiolaeth ddiwygiedig i ni seilio ein penderfyniadau arni.

Rydym unwaith eto yn Gyflogwr Balch, trwy raglen **Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall** ac yn bersonol, rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda Stonewall Cymru a chydweithwyr i ymgorffori cynhwysiant ar draws yr awdurdod. Trwy ein haelodaeth flaenorol, fe wnaethom ddysgu cymaint fel cyflogwr a darparwr gwasanaethau ac rydym bellach yn barod i adeiladu ar y gwaith da hwnnw. Byddaf hefyd yn gweithio gyda'r Cynghorydd Mair Stephens a Grŵp Llywio'r Strategaeth ar gyfer Pobl, i hyrwyddo'r cynnydd a wnaed yn dilyn ein hachrediad Buddsoddwyr mewn Pobl diweddar.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi gweithio i ddatblygu **Calendr Hyrwyddo Amrywiaeth a Chydraddoldeb a phrotocol Baner a goleuo**. Nod y calendr, a fydd yn cael ei weithredu yn ystod 2020-21, yw darparu amserlen safonol ac awdurdodedig am ddiwrnodau dathlu / dynodedig cydraddoldeb ac amrywiaeth allweddol. Nod y calendr yw darparu platfform ar gyfer cyfathrebu mewnol ac allanol, ar draws yr holl nodweddion gwarchoddedig, fel y nodwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Edrychaf ymlaen at ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y calendr yn adroddiad 2020-21.

Fel awdurdod lleol, rydym yn sylweddoli bod mwy o waith i'w wneud ac edrychwn ymlaen at ddatblygu partneriaethau gyda'n cymunedau a chyda'r grwpiau gwarchoddedig er mwyn dysgu mwy.

Y Cynghorydd Cefin Campbell

Adran 1 - Rhagarweiniad

1.1 Rhagarweiniad a chefnidir

Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Y Ddyletswydd Gyffredinol

Nod y Ddyletswydd Gyffredinol yw sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus, a'r rhai sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus, yn ystyried sut y gallant gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach drwy hybu cydraddoldeb a chysylltiadau da yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd.

Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus roi sylw dyledus i'r angen i wneud y canlynol:

1. Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf
2. Gwella cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu
3. Meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu.

Dyletswyddau Penodol yng Nghymru

Roedd Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru allu gwneud rheoliadau sy'n gosod dyletswyddau cydraddoldeb penodol o ran y sector cyhoeddus ar awdurdodau cyhoeddus perthnasol yng Nghymru a restrir yn Rhan 2 o Atodlen 19 o'r Ddeddf.

Mae'r dyletswyddau wedi'u datblygu i fod yn gymesur o ran dyluniad, yn berthnasol o ran angen, yn dryloyw eu dull ac wedi'u teilwra i arwain awdurdodau cyhoeddus perthnasol yng Nghymru tuag at gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol yn well. Yr uchelgais yw diwallu'n well anghenion dinasyddion Cymru sy'n dibynnu ar y gwasanaethau a ddarperir iddynt gan y sector cyhoeddus.

Mae'r Dyletswyddau Penodol yng Nghymru wedi'u nodi yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a daethant i rym ar 6 Ebrill 2011 ac yn nodi y bydd y cyrff rhestredig yn ymgymryd â'r gofynion canlynol ac yn eu datblygu:

- Yr Amcanion
- Cynlluniau Strategol Cydraddoldeb
- Ymgysylltu
- Asesu Effaith
- Gwybodaeth am gydraddoldeb
- Gwybodaeth am Gyflogaeth

- Gwahaniaethau rhwng cyflogau
- Hyfforddi staff
- Caffael
- Adroddiadau blynyddol (gan Awdurdodau Cyhoeddus a Gweinidogion Cymru)
- Cyhoeddi
- Adolygu
- Hygyrchedd

1.2 Unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i gyflawni'r dyletswyddau

Buddsoddwyr mewn Pobl

Unwaith eto mae'r Cyngor wedi ennill y wobr uchaf fel cydnabyddiaeth o'r gwaith rydym yn ei wneud i gefnogi iechyd a llesiant ein staff. Y Safon Iechyd Corfforaethol Platinwm yw'r marc ansawdd ar gyfer hybu iechyd yn y gweithle yng Nghymru, dan arweiniad Llywodraeth Cymru.

Cyngor Sir Caerfyrddin yw'r unig Awdurdod Lleol yng Nghymru i ennill y wobr hon, ac mae wedi gwneud ers 2009. Caiff sefydliadau eu hailasesu bob tair blynedd, ac eleni rydym wedi cael ein hail-ddilysu â'r gwobrau Aur a Phlatinwm.

I gael y wobr Platinwm, roedd yn rhaid i ni ddangos bod rhagoriaeth fusnes a datblygiad cynaliadwy yn rhan annatod o arfer a diwylliant busnes.

Addewid Amser i Newid

Mae addewid Amser i Newid Cymru yn ddatganiad cyhoeddus bod sefydliad am gymryd cam er mwyn mynd i'r afael â'r stigma a'r gwahaniaethau sydd ynghlwm wrth iechyd meddwl. Nid yw'n farc safon, yn achrediad nac yn ardystiad Mae'n rhaid i sefydliadau ymrwymo i gamau gweithredu sy'n realistig ac sy'n iawn ar eu cyfer nhw, a fydd yn arwain at leihau gwahaniaethu yn eich sefydliad a'r gymuned ehanagch.

Mae mwy o sefydliadau yn gwneud rhagor i fodloni'r addewid sefydliadol sy'n golygu bod mwy yn cael ei wneud i helpu i roi'r gorau i gadw'n dawel ynghylch iechyd meddwl. Mae'r addewid hwn yn rhoi neges bwyrus bod iechyd meddwl yn rhywbeth y gellir siarad amdano, ac nad oes lle i stigma a gwahaniaethu.

Rydym yn parhau i ymrwymo i leihau'r stigma ynghylch cyflyrau iechyd meddwl.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ail-lofnodi'r Addewid Amser i Newid, sy'n cadarnhau ein cefnogaeth, ein blaenoriaeth a'n gwaith parhaus i leihau gwahaniaethu ar sail iechyd meddwl a'r stigma ynghylch y pwnc. Yn ogystal â hyn, mae gwaith yn parhau ar ein cynllun gweithredu iechyd meddwl, sy'n cyd-fynd ag agenda llesiant yr awdurdod.

Ers llofnodi'r addewid gyntaf yn 2015 rydym wedi creu modiwl e-ddysgu iechyd meddwl ac wedi cyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth iechyd meddwl ar gyfer rheolwyr a'r holl staff ar draws yr awdurdod.

Rydym hefyd yn awyddus i recriwtio gweithwyr cymorth cyntaf/goruchwylwyr iechyd meddwl ar draws yr awdurdod ac yn ein hysgolion, yn ogystal â recriwtio Cydgysylltydd Llesiant newydd a fydd yn canolbwyntio ar iechyd meddwl a'r mentrau sy'n cefnogi'r gwaith hwn.

Hyrwyddwr Amrywiaeth Stonewall Cymru

Mae rhaglen Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall yn fforwm cyflogwyr ar gyfer cyfeiriadedd rhywiol a chydoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant hunaniaeth o ran rhywedd. Mae'r sefydliad yn gweithio gyda dros 700 o sefydliadau ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i'w helpu i greu amgylcheddau cynhwysol a chroesawgar ar gyfer bron i chwarter gweithlu'r DU.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi gweithio'n agos gyda Stonewall Cymru i gynnal archwiliad ysgafn o'n gwaith yn barod i'w gyflwyno'n ffurfiol i'r Mynegai. Byddwn yn gweithio gyda Stonewall Cymru i osod ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf, yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd trwy'r archwiliad ac mewn trafodaeth â Grŵp Llywio'r Strategaeth ar gyfer Pobl.

Cynhaliodd cydweithwyr o Stonewall sesiwn wedi'i theilwra gyda'n Tîm Caffael i drafod cyfleoedd i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein dogfennau tendro a'n contractau. Mae dogfennau cyn cyflwyno tendr yn cynnwys cwestiynau ynghylch a oes gan gyflenwr bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith sy'n gwahardd bwlio ac aflonyddu yn glir o ran yr holl nodweddion gwarchoddedig yn y Ddeddf Cydraddoldeb.

Gwahaniaethau rhwng cyflogau

Caiff Archwiliadau Cyflog Cyfartal eu cyfrifo a'u cyhoeddi'n flynyddol i barhau i fonitro'r bwlch cyflog. Gwneir argymhellion i weithio tuag at ostyngiad pellach yn y bwlch cyflog i'r Tîm Rheoli Corfforaethol a Phenaethiaid Gwasanaeth. Ers ei gyhoeddi gyntaf yn 2013/14, gwelir gostyngiad blynyddol yn y bwlch cyflog hyd yma, yn bennaf oherwydd gweithredu statws sengl, model cyflogau newydd, monitro'r gwaith o gymhwyso elfennau cyflog ac ymrwymiad i gyflog byw.

Rydym yn dal i gasglu data am yr holl nodweddion gwarchoddedig, gyda golwg ar fedru cynnwys mwy o nodweddion yn archwiliadau'r dyfodol. Caiff data ei goladu adeg recriwtio a thrwy negeseuon atgoffa blynyddol i staff. Yn dilyn adborth archwiliad ysgafn gan Stonewall Cymru, adolygwyd sut yr ydym yn disgrifio nodweddion gwarchoddedig yn ein ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal ac mae ein systemau recriwtio a chyflogres ar y we yn cael eu diweddarau i gyfleu'r newidiadau. Ar ôl cwblhau hyn, bydd y Cyngor yn cynnal ymgyrch hyrwyddo arall i annog gweithwyr i gwblhau monitro cydraddoldeb sy'n ddatganiad gwirfoddol.

Siarter Anableddau Dysgu

Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, mae pobl ag anableddau dysgu yn Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Cheredigion wedi cydweithio i ddatblygu Siarter - rhestr syml yn nodi'r pethau maent yn eu disgwyl a'u hangen i fyw bywydau hapus. Mae'r Siarter wedi ei datblygu â chefnogaeth gan Gronfa Gofal Canolraddol Llywodraeth Cymru, Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru a Choleg Sir Benfro. Fe'i cefnogir gan Gyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Penfro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Gall sefydliadau, cwmnïau ac unigolion lofnodi'r siarter ac ymrwymo i drin pawb yn gyfartal. Bydd marc ansawdd yn cael ei ddatblygu a fydd yn cael ei roi i sefydliadau neu fusnesau sy'n dangos eu bod yn bodloni safonau a dyheadau'r siarter.

Fforwm 50+

Daeth cannoedd o bobl ynghyd i drafod iechyd, llesiant a'r defnydd cynyddol o dechnoleg fel rhan o Fforwm 50+ blynyddol Sir Gaerfyrddin ym mis Medi 2019.

Mae'r digwyddiad poblogaidd yn dwyn ynghyd amrywiaeth eang o bobl a thros 30 o sefydliadau, ac yn rhoi cyfle i edrych yn gadarnhaol ar fynd yn hŷn yn ogystal â chanolbwyntio ar anghenion pobl hŷn y sir. Cynhaliwyd y digwyddiad yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, ac roedd y siaradwyr gwadd yn cynnwys Dr Charles Musselwhite ac Allyson Rogers o Ganolfan Heneiddio Arloesol Prifysgol Abertawe, a Julie Morgan AC, Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Roedd themâu allweddol eleni'n adlewyrchu'r hyn y mae 2,000 aelod y Fforwm wedi dweud sy'n bwysig iddyn nhw. Roedd technoleg ar-lein, symudedd a mynediad i drafnidiaeth yn uchel ar yr agenda a bu'r siaradwyr gwadd yn sôn ychydig am y pwyntiau hyn.

Yn ogystal, cafodd aelodau gyfle i gymryd rhan mewn cyfres o weithdai yn canolbwyntio ar fonitro iechyd digidol, bancio, siopa, cyfathrebu ac ymchwil yn ogystal â darganfod ac osgoi sgamiau. Cafwyd hefyd weithdai llesiant, sesiynau blasu ac arddangosiadau mewn celf a chreffft, ymarfer corff a heneiddio'n dda.

Cefnogir y digwyddiad blynyddol gan Gyngor Sir Caerfyrddin a Llywodraeth Cymru.

Cynghrair a Phartneriaeth Anabledd Sir Gaerfyrddin

Mae'r berthynas rhwng y Cyngor a'r Gynghrair wedi cryfhau drwy gynnal gyfarfodydd Partneriaeth Anabledd Sir Gaerfyrddin bob yn ail fis o dan gadeiryddiaeth y Cynghorydd Jane Tremlett, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Anableddau.

Mae'r Cyngor yn parhau i gefnogi gwaith y Gynghrair ac yn elwa ar ei hadborth a'i chyngor. Gellir gweld enghraifft allweddol o gyfranogiad y Partneriaeth fel yn Astudiaeth Achos 3.

Ymgyrch y Rhuban Gwyn

Rydym yn falch o gefnogi Diwrnod y Rhuban Gwyn ar 25 Tachwedd sy'n ceisio codi ymwybyddiaeth a gweithio i ddod â thrais gan ddynion yn erbyn menywod i ben. Gall preswylwyr hefyd ddangos eu cefnogaeth drwy wneud yr adduned ar-lein "i beidio byth â chyflawni, esgusodi nac aros yn dawel am drais gan ddynion yn erbyn menywod."

Er bod cam-drin domestig yn effeithio ar y ddau ryw, mae'r nifer fwyaf o ddigwyddiadau treisgar yn cynnwys dynion yn erbyn menywod. Fodd bynnag, yn y pen draw mae trais gan ddynion yn erbyn menywod yn fater i bawb, nid dim ond menywod.

Gall dynion gofrestru i fod yn Llysgennad Rhuban Gwyn a gall menywod gofrestru i fod yn Hyrwyddwr Rhuban Gwyn a helpu i hybu ymwybyddiaeth ynghylch yr ymgyrch ac ymgysylltu â dynion a bechgyn er mwyn iddynt weithredu a rhoi terfyn ar ymddygiad treisgar ymhlith eu 'cyfoedion.'

Unwaith eto eleni, dangosodd Cyngor Sir Caerfyrddin ei gefnogaeth drwy chwifio baneri'r Rhuban Gwyn yn adeiladau'r Cyngor yng Nghaerfyrddin (Neuadd y Sir) a neuaddau tref Llanelli a Rhydaman ar 25 Tachwedd a pharhau i'w hyrwyddo yn ystod yr 16 diwrnod o weithredu.

Adran 2 - Nodi, casglu a defnyddio gwybodaeth berthnasol

2.1 Ein cymunedau

Cefndir ystadegol

Amcangyfrifir bod poblogaeth Sir Gaerfyrddin yn 186,452, gyda dwysedd poblogaeth (nifer y boblogaeth/ardal fesul cilometr sgwâr) o 77 person am bob cilometr sgwâr. Sir wledig ac amrywiol yw hon. Mae'n cynnwys 58 o Wardiau Etholiadol gyda 74 o Aelodau Etholedig. Cynhyrchwyd Proffiliau Demograffig o bob un o'r Wardiau Etholiadol ac ar gyfer y Sir sy'n rhoi darlun o fywyd yn y cymunedau unigol ynghyd â gwybodaeth leol werthfawr. Bydd y proffiliau yn darparu gwybodaeth i chi megis:

- Ystadegau'r Boblogaeth
- Dwysedd y Boblogaeth
- Cyfraddau genedigaeth a marwolaeth
- Data Cyfrifiad 2011
- Gwybodaeth am Dai

Gellir cyrchu'r Proffiliau Ward trwy wefan gorfforaethol y Cyngor.

Mae gwybodaeth ystadegol yn darparu llinell sylfaen ddefnyddiol o wybodaeth inni; fodd bynnag, nid yw canlyniadau'r Cyfrifiad yn darparu gwybodaeth am yr holl nodweddion gwarchoddedig.

Fel awdurdod lleol, gallwn gael mynediad i gyfoeth o ddata. Ein prif nod wrth baratoi'r adroddiad tystiolaeth oedd nodi data i gefnogi'r Ddyletswydd Gyffredinol mewn:

1. Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf
2. Gwella cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a rhai nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno
3. Meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno.

2.2 Ein staff

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi bod yn casglu data cyflogaeth ers sawl blwyddyn bellach ac wedi creu adnoddau penodol i esbonio i staff pam y mae'r wybodaeth yn cael ei chasglu a sut y gall y data ddylanwadu ar ein polisïau yn y gweithle a'r gefnogaeth i staff. Gellir gweld ein Hadroddiad manwl ar Broffil y Gweithle ar ein gwefan gorfforaethol. Yn dilyn cyhoeddi Deddf Cydraddoldeb 2010, mae'r is-adran wedi bod yn gweithio i wella'r broses o gasglu data'r gweithlu ac rydym yn cydnabod bod hon yn broses barhaus.

Adran 3 – Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn elfen allweddol o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r amcanion ac maent yn rhan annatod o'r holl benderfyniadau yn ymwneud â chyllideb, polisi a strategaeth. Mae'n ofynnol bod Penaethiaid Gwasanaeth a Rheolwyr Cyllideb yn cwblhau asesiad o'r holl benderfyniadau polisi fel rhan o'r broses pennu cyllideb. Mae hefyd yn allweddol bod asesiadau'n cael eu cynnal fel rhan o ddatblygu pob polisi a strategaeth a bod y templed Newid Sefydliadol yn cael ei lenwi pan fydd yna ystyriaethau Adnoddau Dynol.

Mae'r Tîm Polisi a Phartneriaeth yn arwain y gwaith o gyflwyno Asesiad Integredig. Mae hyn oherwydd y ffaith ei bod yn ofynnol yn statudol i'r Cyngor gwblhau asesiadau effaith o dan nifer o ddeddfwriaethau newydd a phresennol.

Mae'r gofynion hyn yn rhwymedigaethau cyfreithiol ar gyfer y Cyngor a gall methu â chyflawni'r dyletswyddau hyn olygu bod y Cyngor yn wynebu her gyfreithiol.

Mae'r asesiad integredig hwn (a oedd i'w gyflwyno yn ystod 2019-2020 ond sydd wedi'i ohirio oherwydd COVID-19) yn ymgorffori gofynion y Deddfau canlynol mewn un Asesiad Effaith:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Deddf Cydraddoldeb 2010
- Mesur y Gymraeg 2011 a Safonau'r Gymraeg
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 – y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnherthedd Ecosystemau
- Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Bydd gwaith pellach ar gyflwyno'r asesiad integredig yn cael ei gwblhau yn ystod 2020-21.

Adran 4 – Hyfforddiant

Mae Tîm Dysgu a Datblygu'r Cyngor yn paratoi Cynllun Dysgu a Datblygu blynyddol sy'n amlinellu'r holl gyfleoedd hyfforddi a datblygu sydd ar gael - gan gynnwys cyfleoedd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Mae'n ofynnol i Reolwyr Llinell drafod cyfleoedd dysgu a datblygu fel rhan o arfarnu staff a sicrhau bod staff yn cael cyfleoedd i ddatblygu'n broffesiynol. Mae'n ofynnol i bob aelod newydd o staff gwblhau'r modiwl dysgu ar-lein "Arddel Amrywiaeth" cyn pen chwe mis ar ôl eu penodi. Mae'n ofynnol i bob Rheolwr ac Uwch-reolwr fynychu'r hyfforddiant Safonau Ymddygiad yn y Gweithle ac, os ydynt yn ymwneud â gweithgareddau recriwtio, Hyfforddiant Recriwtio a Dethol.

Adran 5 – Trefniadau caffael

Mae'r Tîm Polisi a Phartneriaeth yn gweithio'n agos gyda'r Uned Gaffael i sicrhau cydymffurfiaeth. Un o'r dogfennau allweddol yw'r Gronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr (SQuID). Mae'r wybodaeth hon yn dempled a ddarperir gan Is-drân Gwerth Cymru Llywodraeth Cymru.

Dyluniwyd y SQuID i symleiddio a safoni cam dethol y broses gaffael a gwella tryloywder. Mae'r dull hwn hefyd yn ei gwneud hi'n haws i fusnesau bach dendro am contractau'r sector cyhoeddus. Cynhwyswyd gwybodaeth ynghylch Cydraddoldeb yn y dogfennau SQuID, ac mae'n rhaid i bob darpar gyflenwr lenwi'r adran hon. Mae'r templed SQuID yn gofyn yn benodol i ddarpar gyflenwyr am wybodaeth mewn perthynas ag unrhyw ganfyddiadau o wahaniaethu anghyfreithlon gan Dribiwnlys Cyflogaeth, Tribiwnlys Apeliadau Gweithwyr, neu unrhyw lys arall a/neu unrhyw gŵnion a gadarnhawyd yn dilyn ymchwiliad gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol neu ei ragflaenwyr (neu gorff cymaradwy mewn unrhyw awdurdodaeth heblaw'r DU) ar sail gwahaniaethu anghyfreithlon honedig. Mae'r canllawiau'n nodi'n glir na fydd darpar gyflenwyr sydd ag unrhyw ganfyddiadau yn eu herbyn yn cael eu dethol i dendro, oni bai eu bod wedi darparu tystiolaeth ddigonol eu bod wedi cymryd camau priodol i atal hynny rhag digwydd eto.

Côd Ymarfer Llywodraeth Cymru - Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi

Mae'r Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi wedi cael ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru er mwyn cefnogi datblygiad cadwyni cyflenwi mwy moesegol i gyflawni contractau ar gyfer Sector Cyhoeddus Cymru. Yn ystod y flwyddyn, mae swyddogion Caffael Corfforaethol, Rheoli Pobl a Pholisi wedi paratoi Polisi Cyflogaeth Moesegol a Chadwyni Cyflenwi i'w ystyried gan y Bwrdd Gweithredol.

Mae'r Bwrdd Gweithredol hefyd wedi enwebu Hyrwyddwr Etholedig Cyflogaeth Foesegol, sef y Cynghorydd David Jenkins.

Adran 6 - Adolygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, (SEP), yn nodi sut y byddwn ni, fel Cyngor Sir Caerfyrddin, yn sicrhau bod ein camau gweithredu yn deg i bawb. Mae cael ein trin yn deg a chyda pharch yn berthnasol i bob un ohonom ac i'n teuluoedd a'n ffrindiau.

Yn ystod 2019-20 rydym wedi diwygio ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol i adeiladu ar ein cynlluniau blaenorol ar gyfer 2012-16 a 2016-2020. Ysgrifennwyd y cynllun ar ôl ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol fel rhan o bartneriaeth Canolbarth a Gorllewin Cymru gyda chyrff gwasanaethau cyhoeddus eraill yn ystod haf 2019.

Roedd hyn yn cynnwys arolwg ar y cyd i gasglu barn ar sut y mae pobl o wahanol gefndiroedd yn profi chwe phrif faes bywyd.

- Addysg
- Gwaith
- Safonau Byw
- Iechyd
- Cyfiawnder a diogelwch personol
- Cyfranogi

Mae'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol yn seiliedig ar yr anghenion a'r materion a godwyd yn ystod y broses ymgysylltu ac ymgynghori ac 'A yw Cymru'n Decach 2018?'. Rydym hefyd wedi ystyried yr Amcanion Strategol fel y'u gosodwyd gan Lywodraeth Cymru a sut y gallwn gyfrannu at yr amcanion hynny.

Gan gymryd y wybodaeth uchod i ystyriaeth, rydym wedi pennu'r amcanion cydraddoldeb canlynol ar gyfer 2020-24 i Gyngor Sir Caerfyrddin:

1. Bod yn gyflogwr arweiniol
2. Mae anghenion a hawliau pobl â Nodweddion Gwarchoddedig yn llywio dyluniad gwasanaethau
3. Cymunedau diogel a chydlynus sy'n gydnerth, yn deg ac yn gyfartal
4. Gwella mynediad i'n gwasanaethau a mynediad i'n hamgylchedd.

Atodiad 1 o'r Adroddiad Blynyddol hwn yw ein cynllun gweithredu ar gyfer 2021-22. Byddwn yn achub ar y cyfle i ddiweddarau ein cynllun gweithredu trwy'r adroddiad blynyddol, yn flynyddol.

Astudiaeth Achos 1: Cydlyniant Cymunedol

Ariennir Cydlyniant Cymunedol gan Lywodraeth Cymru ac mae 8 Cydlynnydd ledled Cymru a swyddogion yn gweithio ochr yn ochr â nhw. Kay Howells yw Cydlynnydd Cydlyniant Cymunedol Canolbarth a De-orllewin Cymru (Ceredigion, Powys, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro). Dechreuodd yn y swydd ym mis Gorffennaf 2019 ac mae gan y tîm ddau swyddog, sef Paul Davies sy'n gweithio yn Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro a Sarah Bowen sy'n gweithio yng Ngheredigion a Phowys a ddechreuodd weithio ym mis Rhagfyr 2019.

Mae gan Gydlyniant Cymunedol friff eang gan gynnwys Troseddau Casineb, Ymgyrchoedd Cydlyniant, Gweithio gyda Ffoaduriaid, Caethwasiaeth Fodern, gweithio gyda'r Gymuned Sipsiwn a Theithwyr a gwaith sy'n rhoi sylw i'r effaith y gallai Brexit fod yn ei chael ar ein cymunedau. Mewn perthynas â'r maes gwaith hwn, mae'r tîm yn gyfrifol am sicrhau bod cynifer o Ddinasyddion yr UE yn y Sir â phosibl wedi gwneud cais i'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE.

Trosedd Casineb

Mae ysgolion ledled Sir Gaerfyrddin wedi eu nodi i dderbyn Hyfforddiant Meddwl yn Feirniadol sy'n gysylltiedig â Throseddau Casineb mewn Ysgolion. Ariannwyd yr hyfforddiant hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i datblygwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Bydd 100 o ysgolion ledled Cymru yn derbyn yr hyfforddiant hwn. Pwrpas yr hyfforddiant hwn yw helpu plant ysgol yng Nghymru a'u hathrawon i ddysgu adnabod ac ymateb yn well i iaith casineb a chamwybodaeth, ac i roi tawelwch meddwl i ysgolion. Bydd yr hyfforddiant hwn yn cael ei gyflwyno i ddisgyblion ac athrawon mewn 5 ysgol uwchradd ledled y sir.

Ffilmiau Cydlyniant Cymunedol

Mae Cydlyniant Cymunedol yn datblygu cyfres o ffilmiau byr i godi ymwybyddiaeth o faterion allweddol yn ymwneud â chydlyniant. Cânt eu rhyddhau yn ystod cyfnodau ymgyrchu allweddol yn ystod 2020. Bydd y ffilmiau'n canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb mewn cydweithrediad â Chymorth i Ddiodefwyr. Cânt eu rhyddhau yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb 2020. Rydym hefyd yn creu ffilmiau ar gyfer ymgyrchoedd eraill yn ystod y flwyddyn gan gynnwys un ar gyfer Wythnos Ffoaduriaid i hyrwyddo integreiddio ac amrywiaeth ac i rannu straeon cadarnhaol am Ffoaduriaid o Syria sydd wedi ymgartrefu yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru, Ymwybyddiaeth o Anabledau a ffilm gyffredinol ynghylch Cydlyniant Cymunedol.

Statws Preswylwyr Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EUSS)

Mae gan y tîm Cydlyniant Cymunedol gynllun cyfathrebu i ymgysylltu â Ddinasyddion yr UE sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin i hyrwyddo EUSS ac annog Ddinasyddion yr UE i wneud cais i'r cynllun. Rydym wedi cysylltu ag asiantaethau'r trydydd sector sy'n cynnig cyngor i Ddinasyddion yr UE. Yn benodol rydym wedi gwneud y canlynol:

- Trefnu sesiynau hyfforddi ar gyfer ein staff rheng flaen fel eu bod yn gallu cyfeirio ddinasyddion yr UE at gefnogaeth ac arweiniad priodol.
- Datblygu ymgyrch hyrwyddo gan ddefnyddio cyfryngau, hysbysebu ar arosfannau bysiau, cyfryngau cymdeithasol a datganiadau i'r wasg

- Datblygu a mynychu nifer o ddigwyddiadau i hyrwyddo EUSS
- Cysylltu â chyflogwyr allweddol, ysgolion a sefydliadau eraill sydd â chysylltiad â nifer o Ddinasyddion yr UE i hyrwyddo'r cynllun.

Cronfa Grantiau Bach ar gyfer Prosiectau Cydlyniant

Ym mis Rhagfyr 2019, hyrwyddodd y tîm gronfa grantiau bach newydd y gallai grwpiau cymunedol ledled y rhanbarth wneud cais iddi am arian i ddatblygu gwaith prosiect i gefnogi cydlyniant cymunedol yn eu hardaloedd. Mae tri phrosiect, a gafodd eu cynnal rhwng Ionawr a Mawrth 2020, wedi cael eu hariannu yn Sir Gaerfyrddin. Y prosiectau yw:

[Cysylltiadau Stori - People Speak Up](#)

8 sesiwn i ddatblygu prosiect sy'n dod â phobl o gymunedau gwahanol ynghyd i rannu lle a chreu straeon. Gan weithio gydag ystod eang o bartneriaid gan gynnwys Syria Sir Gâr, Pride Llanelli, Theatr y Ffwrnes a'r gwasanaeth Ieuenctid, bydd y prosiect yn gorffen â ffilm astudiaeth achos yn arddangos y prosiect.

[Ffrindiau a Chymdogion \(FAN\) Gyda'n Gilydd yn Llanelli](#)

Bwriad y prosiect yw dechrau grŵp FAN yn Llanelli a hyfforddi hwyluswyr FAN i gynnal y grŵp fel ei fod yn gynaliadwy yn y dyfodol. Bydd y grŵp yn dathlu amrywiaeth Llanelli a'r cyfleoedd sydd ar gael yn y dyfodol. Mae FAN yn cynnig cyfle i bobl o gefndiroedd amrywiol ddod ynghyd, cwrdd â phobl newydd o wahanol ddiwylliannau, magu hyder a meithrin perthynas a chyd-ddealltwriaeth a pharch.

[Seremoni Gwobrau Cymunedol a Dathliadau Diwrnod Rhyngwladol y Menywod Sir Gaerfyrddin, Partneriaeth Gymunedol Llanelli](#)

Bydd y digwyddiad hwn yn dathlu amrywiaeth a bydd siaradwyr ysbrydoledig o bob cefndir yn cymryd rhan. Bydd ystod eang o sefydliadau a grwpiau cymunedol yn bresennol, megis Syria Sir Gâr a Rhwydwaith Amlddiwylliannol Llanelli a byddant yn rhoi sylw i Gydlyniant Cymunedol a diogelwch cymunedol. Bydd yno stondinau gwybodaeth a stondinau gan Gymorth i Ddiodefwyr, Cyngor Hil Cymru a Heddlu Dyfed-Powys.

Gwaith Ymgysylltu LGBTQ+

Mae'r tîm wedi cefnogi'r gwaith o sefydlu grŵp Ieuenctid LGBTQ+ yn Dr Mz yng Nghaerfyrddin. Dangosodd ymchwil ddiweddar nad yw llawer o'r ieuenctid LGBT yng Nghaerfyrddin bob amser yn teimlo bod darpariaeth gyffredinol yn ddigon cadarnhaol/diogel, a nodwyd mai bwlio (ar-lein ac yn bersonol) oedd y broblem fwyaf. Ym mis Hydref 2019 gwnaethant gynnal cyfarfod i oedolion LGBTQ+, rhieni plant LGBTQ+ a oedd â diddordeb a phobl ifanc - y canlyniad oedd y grŵp datblygu sydd bellach yn cwrdd bob mis.

Adborth rhieni

"Mae'r grŵp yn amhrisiadwy, roedd fy mhlentyn yn teimlo'n ynysig yn yr ysgol ac mae bellach mewn lle cwbl ddiogel yng nghwmni pobl ifanc eraill sy'n cael profiadau tebyg mewn bywyd. Mae eu hyder wedi gwella, ac mae wedi meithrin perthynas â pherson ifanc arall sy'n mynychu'r grŵp ac mae wrth ei fodd yn mynychu pob sesiwn." Mam plentyn 15 oed anneuaid, deurywiol

"Mae fy mhlentyn wrth ei fodd â'r grŵp, ac mae'n gallu ymlacio a theimlo'n ddiogel yno i fyw bywyd yn ôl ei ddymuniad heb orfod cuddio neu gyfiawnhau ei rywedd. Mae wedi cael llond bol o orfod bod yn wylidwrus yn gyson, mae hynny'n waith blinedig, ond mae bob amser yn edrych ymlaen at fynd i'r grŵp ac ymlacio, gwneud ffrindiau a mwynhau ei hun, fel y dylai rhywun yn ei ardegau allu ei wneud, heb ofn. " Mam plentyn 14 oed anneuaid, deurywiol

"Er mai dim ond am gyfnod byr y mae'r grŵp wedi bodoli, mae eisoes yn teimlo fel lle cynnes, croesawgar a chefnogol. Mae'r arweinwyr ieuenctid yn deall yn iawn yr hyn y mae ein plant yn ei brofi, sy'n hanfodol. Mae hi wedi gwneud ffrindiau ac mae gwên enfawr ar ei wyneb bob amser wrth ddod adref." Mam cis lesbiad, 14 oed.

Astudiaeth Achos 2: Nodi'r Holocaust



Mae Adran Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin, am y bedwaredd flynedd yn olynol bellach, wedi trefnu digwyddiad i'w disgyblion ysgol uwchradd i nodi'r Holocaust. Mae'r logo cenedlaethol o ran Cofio'r Holocaust wedi ei gynnwys uchod. Y nod yw gwella gwybodaeth a dealltwriaeth pobl ifanc am yr Holocaust yn ogystal â hil-laddiadau dilynol, a dysgu iddynt am beryglon rhagfarn a hiliaeth a'r hyn a allai ddigwydd yn y pen draw yn sgil hyn.

I ddechrau, roedd y digwyddiad yn cael ei gynnal ar ffurf gweddarllediad byw gyda goroeswr a drefnwyd gan Ymddiriedolaeth Diwrnod Cofio'r Holocaust. Ond yn dilyn adborth gan ddisgyblion yn 2018, mae'r Adran wedi chwilio am oroeswyr a'u gwahodd i rannu eu profiadau.

Yn 2019, cafodd disgyblion y fraint o gwrdd â Marie Christine Nibagwire, goroeswr hil-laddiad Rwanda. Gan gario ei merch ar ei chefn, croesodd Marie-Christine dair gwlad arall yn Affrica, ar droed, gan brofi llawer o gamdriniaeth yn ogystal â newyn cyn dod i'r DU fel mewnfudwr anghyfreithlon, ceisio lloches, a chael dinasyddiaeth yn y pen draw. Mae Marie bellach yn rhoi o'i hamser yn cwmsela goroeswyr eraill, gan rannu straeon am y golled a'r dioddefaint y gall erchyllterau o'r fath eu hachosi, ac dysgu pobl am werthoedd cariad, cyfiawnder, a pharch fel sylfeini heddwch. Wedi i Marie-Christine adrodd ei straeon, cynhaliwyd gweithdy i ddisgyblion dan arweiniad Gwasanaeth Cyflawniad Grwpiau Lleiafrifol ac Ethnig y sir, gan godi ymwybyddiaeth o'r trafferthion y mae ffoaduriaid yn eu hwynebu heddiw, a chafwyd cyflwyniad gan ddisgyblion ysgol Glan y Môr, yn arddangos y fenter ChangeMakers sydd wedi eu helpu i herio gwahaniaethu.

Yn 2020, i nodi 75 mlynedd ers rhyddhau Auschwitz Birkenau, gwnaeth yr Adran gais llwyddiannus i Ymddiriedolaeth Addysg yr Holocaust i Eva Clarke, un o oroeswyr yr Holocaust, rannu ei thystiolaeth. Yn bennaf oherwydd ei dewrder rhyfeddol a'i chymeriad cryf fe oroesodd mam Eva, Anka, Theresienstadt, gwersyll crynhoi Auschwitz, gwersyll llafur caethweision Freiburg, ac yn olaf, gwersyll marwolaeth Mauthausen yn Awstria. A hithau'n pwysu 5 stôn yn unig, ganed iddi ferch yno mewn tryc glo ar 29 Ebrill, 1945. Eva a'i mam oedd yr unig aelodau o'r teulu i oroesi gan i'w thad ac 14 o berthnasau agos eraill gael eu lladd yn Auschwitz-Birkenau.

Ymgasglodd chwe deg o fyfyrwyr Blwyddyn 10 ac 11 ynghyd â'u hathrawon o ddeg o ysgolion Sir Gaerfyrddin yn Neuadd y Gwendraeth, Dre-fach, ar 28 Chwefror, 2020, i wrando ar Eva yn sôn am ei phrofiadau dirdynnol a chawsant gyfle i ofyn cwestiynau iddi. Roedd y cwestiynau a ofynnwyd yn dangos bod y disgyblion wedi ymgolli'n llwyr yn y profiad gan ddangos sensitifrwydd a dirnadaeth.

Ar ôl y sesiwn, cymerodd y disgyblion ran mewn dau weithdy. Arweiniwyd y sesiwn gyntaf gan Elaine Thomas, gwirfoddolwr ac addysgwr lleol Ymddiriedolaeth Addysg yr Holocaust,.

Rhoddodd hyn fwy o gyd-destun i brofiadau Eva gan alluogi disgyblion i ennyn rhagor o wybodaeth am y mesurau cyfreithiol a ddeddfwyd yn erbyn Iddewon yn ystod cyfnod y Natsïaidd, gan ysgogi myfyrio ar yr effaith ddynol a ddaeth yn sgil y ddeddfwriaeth hon. Arweiniwyd yr ail weithdy gan drefnydd y digwyddiad, Polly Seton, swyddog Dysgu Byd-eang Sir Gaerfyrddin. Yn y sesiwn hon, atgoffwyd disgyblion bod hil-laddiadau eraill wedi digwydd wedi cyfnod yr Holocost, bod hiliaeth a throseddau casineb ar gynnydd, ac y gall galw enwau a stereoteipio arwain at drais yn y pen draw. Yna trafododd y disgyblion a'u hathrawon gamau cadarnhaol y gallent eu cymryd fel unigolion ac fel cymunedau ysgol.

Yn dilyn y gweithdai, darllenodd Louise Morgans, Swyddog y Celfyddydau Creadigol, y gerdd "The Butterfly" a ysgrifennwyd gan Pavel Friedmann, y bardd Tsiecaidd Iddewig a laddwyd yn Auschwitz. Cafodd y disgyblion eu hysbrydoli gan hyn a chan dystiolaeth Eva i greu gloŷnnod byw papur ar gyfer darn celf coffa i gofio ac anrhydeddu'r sawl a fu farw o achos hil-laddiad.

Fel cyngor, rydym yn hynod o ddiolchgar i Eva Clarke am ymgymryd â'r siwrnai hir o Gaergrawnt i Dre-fach ac i Ymddiriedolaeth Addysg yr Holocost am ei chefnogaeth gyda'r digwyddiad. Mae hyn wedi bod yn gyfle unigryw ac wedi gadael argraff barhaol ar ein pobl ifanc ac yn ein helpu ni i gyd i sylweddoli mor beryglus yw casineb a chulfarn, ac mor bwysig yw hyrwyddo empathi a gweithredu i herio hiliaeth a rhagfarn heddiw.

Astudiaeth Achos 3: Y Bartneriaeth Anabledd a Phentre Awel

Mae [Pentre Awel](#) yn ddatblygiad 'unwaith mewn cenhedlaeth' wedi'i leoli ar draws 86 erw o dir llwyd yn ne Llanelli. Bydd Pentre Awel yn cydleoli'r sectorau cyhoeddus (llywodraeth leol, bwrdd iechyd), y byd academiaidd, preifat a gwirfoddol i greu ecosystem ar gyfer addysg, ymchwil a datblygu, meithrin busnesau a mentrau llesiant ehangach a bydd yn creu oddeutu 1,800 o swyddi ac yn gwella elfennau cymdeithasol, economaidd a llesiant amgylcheddol ledled y rhanbarth.



Mae Pentre Awel wedi elwa ar waith ymgysylltu helaeth â'r cyhoedd a rhanddeiliaid ar bob cam o'r prosiect. Yn benodol, ymgysylltodd tîm y prosiect â Phartneriaeth Anabledd Sir Gaerfyrddin (CDP) yn ystod y cam datblygu dylunio er mwyn rhoi ystyriaeth briodol i hygyrchedd a chynwysoldeb mewn perthynas â chyfleusterau a chynllun yr adeilad.

Cyflwynodd Arup – ymgynghorwyr dylunio'r prosiect – gynlluniau/amlinelliadau i'r CDP wrth iddynt ddatblygu a cheisio adborth ar nifer o bynciau sydd o fewn cylch gwaith y Grŵp, gan gynnwys: darpariaeth lles (toiledau hygyrch), trafniadaeth gyhoeddus, parcio ceir i'r anabl, mynediad i'r pwll hydrotherapi, cyfleusterau Changing Places ac amgylcheddau hygyrch i'r cyhoedd.

Yn dilyn y gwaith ymgysylltu cychwynnol, cynhaliwyd trafodaeth barhaus â thîm y prosiect trwy ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf yn ysgrifenedig ac ar lafar er mwyn sicrhau bod y CDP yn cael ei werthuso o ran y broses datblygu dylunio.

Manteision:

- Roedd tîm y prosiect yn gallu ymgysylltu â grŵp demograffig allweddol a chyfleu negeseuon pwysig / wedi'u teilwra
- Y gallu i sicrhau bod gan y cyhoedd well dealltwriaeth o'r cynigion a'r gwasanaethau
- Roedd aelodau CDP yn gallu darparu mewnbyn / adborth arbenigol
- Roedd tîm y prosiect yn gallu ystyried unrhyw rwystrau i fynediad cyn y gwaith datblygu
- Roedd CDP yn gallu craffu a herio'n effeithiol
- Gallai CDP ddod yn eiriolwyr dros y prosiect fel rhan o'u rhwydweithiau rhanddeiliaid

Gwersi/Arfer Gorau:

- Er mwyn i'r gwaith ymgysylltu fod yn ystyrlon ac yn adeiladol, mae'n bwysig ymgynghori ar gamau ffurfiannol y prosiect lle y gellir dylanwadu ar y broses ddylunio / gwneud penderfyniadau
- Gall ymgysylltu â rhanddeiliaid yn gynnar ac yn aml feithrin ymddiriedaeth ac arwain at ganlyniadau gwell
- Cofiwch 'gau'r ddolen' ar ôl ymgysylltu
- O ystyried ehangder y pynciau dan sylw, trefnwyd cyfarfodydd ychwanegol gyda'r Grŵp i ganiatáu digon o amser i ystyried y cynigion

Manylion Cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth am Gynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Sir Caerfyrddin, Cysylltwch â:

Tîm Polisi a Phartneriaeth

Neuadd y Sir

Caerfyrddin

SA31 1JP

01267 224914

cydraddoldeb@sirgar.gov.uk

Gallwch hefyd gysylltu â Galw Sir Gâr drwy neges destun

0789 2345678